Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Cefnogi datblygiad proffesiynol

Mae'r dudalen hon yn cynnig canllawiau ac adnoddau ymarferol i reolwyr a goruchwylwyr er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ac ymarfer myfyriol eu staff.

Cyhoeddwyd gyntaf: 27 October 2026
Diweddariad olaf: 10 November 2026

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf. Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/cymwysterau-ac-ariannu/datblygiad-proffesiynol-

> parhaus-dpp-2/cefnogi-datblygiad-proffesiynol am y fersiwn diweddaraf.

Mae pobl yn dysgu mewn ffyrdd amrywiol – trwy hyfforddiant, goruchwyliaeth, trafodaethau proffesiynol ac ymarfer bob dydd. Mae gan reolwyr a goruchwylwyr rôl bwysig wrth gefnogi dysgu a datblygiad proffesiynol. Gallan nhw gefnogi gweithwyr drwy greu cyfleoedd i ddysgu, myfyrio a rhoi gwybodaeth newydd ar waith.

Mae'r dudalen hon yn cynnig canllawiau ac adnoddau ymarferol i reolwyr a goruchwylwyr er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ac ymarfer myfyriol eu staff.

Eich rôl wrth gefnogi datblygiad proffesiynol

Mae cefnogi datblygiad proffesiynol yn helpu gweithwyr i ddarparu gofal a chymorth diogel, effeithiol sy’n canolbwyntio ar y person. Mae sgyrsiau rheolaidd am ddysgu yn helpu gweithwyr i barhau i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth drwy gydol eu gyrfaoedd.

Fel rheolwr, gallwch chi gefnogi gweithwyr i:

- nodi anghenion dysgu
- gael mynediad at gyfleoedd dysgu
- fyfyrio ar ddysgu
- gymhwyso dysgu yn ymarferol
- ddatblygu gwybodaeth a sgiliau
- baratoi ar gyfer rolau a chyfrifoldebau yn y dyfodol.

Creu diwylliant dysgu cadarnhaol

Mae diwylliant dysgu cadarnhaol yn annog pobl i ddysgu, rhannu syniadau a myfyrio ar eu harfer. Dylai dysgu fod yn rhan o arfer bob dydd, nid dim ond hyfforddiant ffurfiol.

Gallwch greu diwylliant dysgu cadarnhaol drwy:

- rhoi amser i drafod dysgu
- annog gweithwyr i rannu'r hyn a ddysgwyd gyda chydweithwyr
- gydnabod dysgu sy'n deillio o arferion bob dydd
- greu cyfleoedd i fyfyrio
- gydnabod cryfderau ac arferion da
- gefnogi sgyrsiau agored a gonest.

Nodi anghenion dysgu a datblygu

Bydd anghenion dysgu yn newid drwy gydol gyrfa rhywun. Defnyddiwch oruchwyliaeth a sgyrsiau rheolaidd i siarad am:

- rolau a chyfrifoldebau cyfredol
- gryfderau a meysydd i'w datblygu
- adborth o ymarfer
- newidiadau mewn deddfwriaeth, canllawiau neu arfer gorau
- flaenoriaethau dysgu yn y dyfodol
- ddyheadau gyrfa.

Mae'r sgyrsiau hyn yn helpu gweithwyr i nodi cyfleoedd dysgu sy'n berthnasol i'w rôl a'u datblygiad proffesiynol.

Gall y Codau Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol, a'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) helpu i nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r

ymddygiadau sydd eu hangen ar gyfer gwahanol rolau, a chefnogi sgyrsiau am ddysgu a datblygu.

Cefnogi dysgu trwy oruchwyliaeth

Mae goruchwyliaeth yn rhoi amser i weithwyr fyfyrio ar eu harfer, trafod yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu a gosod nodau datblygu.

Defnyddiwch oruchwyliaeth i archwilio:

- beth maen nhw wedi'i ddysgu
- sut maen nhw wedi defnyddio'r dysgu hwnnw yn ymarferol
- beth sydd wedi gweithio'n dda
- unrhyw heriau neu rwystrau y daethon nhw ar eu traws
- pa gymorth sydd ei angen arnyn nhw
- pa gamau sydd eu hangen ar gyfer dysgu yn y dyfodol.

Mae sgyrsiau myfyriol yn helpu gweithwyr i ddeall sut mae dysgu'n effeithio ar eu hymarfer ac yn gwella'r gofal a'r gefnogaeth maen nhw'n eu darparu.

Defnyddiwch ein cwestiynau myfyriol ar gyfer goruchwylio i gefnogi'r sgyrsiau hyn.

Cydnabod dysgu bob dydd

Nid drwy hyfforddiant ffurfiol yn unig y mae dysgu'n digwydd. Mae gweithwyr yn dysgu drwy lawer o brofiadau, gan gynnwys:

- goruchwyliaeth

- trafodaethau proffesiynol
- cyfarfodydd tîm
- mentora a hyfforddi
- dilyn cydweithwyr
- darllen canllawiau ac ymchwil
- gweminarau a phodlediadau
- cael adborth gan gydweithwyr a phobl sy'n derbyn gofal a chymorth
- arferion dydd-i-ddydd.

Mae cydnabod dysgu anffurfiol yn helpu gweithwyr i ddeall bod datblygiad proffesiynol yn digwydd bob dydd.

Adolygu effaith dysgu

Mae dysgu'n cael yr effaith fwyaf pan gaiff ei gymhwyso'n ymarferol.

Defnyddiwch oruchwyliaeth i drafod:

- beth mae gweithwyr wedi'i ddysgu
- sut mae arfer wedi newid
- pa wahaniaeth mae'r dysgu wedi'i wneud
- pa ddysgu neu gymorth pellach y gallai fod ei angen.

Mae'r sgyrsiau hyn yn helpu gweithwyr i ddefnyddio'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu ac i nodi anghenion datblygu yn y dyfodol.

Cefnogi datblygiad gyrfa

Mae rheolwyr yn chwarae rhan bwysig wrth helpu gweithwyr i ddatblygu eu gyrfaoedd.

Mae sgyrsiau datblygu rheolaidd yn helpu gweithwyr i:

- nodi eu nodau gyrfa
- archwilio cyfleoedd dysgu a datblygu
- baratoi ar gyfer cyfrifoldebau newydd
- ddeall cymwysterau a chyfleoedd dilyniant
- gynllunio eu datblygiad yn y dyfodol.

Pan fydd rheolwyr yn cefnogi datblygiad gyrfa, mae gweithwyr yn meithrin hyder ac yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw ar gyfer rolau yn y dyfodol.

Gall y fframwaith tâl a dilyniant a'r fframwaith cymwysterau gefnogi sgyrsiau datblygu gyrfa drwy helpu gweithwyr i ddeall y wybodaeth, y sgiliau a'r cymwysterau sy'n cefnogi cynnydd.

Adnoddau defnyddiol

Efallai y byddwch hefyd yn gweld yr adnoddau hyn yn ddefnyddiol:

- Myfyrio ar eich dysgu
- Ffyrdd gwahanol o fyfyrio
- Cwestiynau myfyriol ar gyfer goruchwylio
- Cofnod dysgu

Tudalennau cysylltiedig

- Deall DPP
- Dysgu

- Ymarfer myfyriol
- Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)
- Goruchwyliaeth effeithiol
- Fframwaith tâl a dilyniant
- Codau Ymarfer Proffesiynol
- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)
- Fframwaith cymwysterau